# DATGANIAD I'R WASG 3/11/23

## *CANSLO ARDDANGOSFA'R GOELCERTH A'R TÂN GWYLLT YM MHARC EIRIAS*

Gyda gofid rydym yn cyhoeddi bod Arddangosfa Coelcerth a Thân Gwyllt Parc Eirias sydd i fod i gael ei chynnal o 7pm nos Wener 3ydd Tachwedd 2023 wedi'i chanslo.

Mae'r penderfyniad hwn wedi'i wneud ar sail diogelwch, oherwydd y glaw trwm a ragwelir dros y 24-36 awr nesaf a'r effaith y gallai hyn ei gael ar argaeledd staff ac ar dir sydd eisoes dan ddŵr, gan achosi pryderon diogelwch i'r rhai sy'n mynychu'r digwyddiad a difrod posibl i'r parc.

Ni fu'n bosibl aildrefnu'r digwyddiad i ddyddiad diweddarach, gan nad ydym yn gwybod faint o amser y bydd yn ei gymryd i'r ddaear adfer yn dilyn y stormydd diweddar ac a ragwelir. Gwyddom y byddwch yn siomedig am hyn a gallwn eich sicrhau na chymerwyd y penderfyniad hwn yn ysgafn.

Diolchwn i'n partneriaid yng Ngorsaf Dân Bae Colwyn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chanolfan Hamdden Colwyn am bopeth y maent wedi'i wneud i'n helpu i ddarparu digwyddiad diogel a phleserus dros y 50+ mlynedd diwethaf. Bydd llawer o'u staff wrth law dros y 36 awr nesaf i ymateb i unrhyw argyfyngau oherwydd y tywydd garw. Gobeithiwn fod pawb yn cadw'n ddiogel ac y byddwn yn ôl gyda digwyddiad mwy a gwell yn 2024.

Cynghorydd Hannah Fleet, Maer y Dref
Cynghorydd Chris Hughes, Cadeirydd Is-Bwyllgor Noson y Tân Gwyllt Bae Colwyn

# PRESS RELEASE – 3/11/23

*CANCELLATION OF EIRIAS PARK BONFIRE & FIRWORKS DISPLAY*

It is with regret that we announce the cancellation of the Eirias Park Bonfire and Fireworks Display, scheduled to take place from 7pm on Friday 3rd November 2023.

This decision has been taken on safety grounds, due to the forecasted heavy rainfall over the next 24-36 hours and the impact this could have both on staff availability and on already waterlogged ground, causing safety concerns for those attending the event and potential damage to the parkland.

It has not been possible to reschedule the event to a later date, as we do not know how long it will take for the ground to recover from the recent and expected storm events. We know this will be disappointing and can assure you that this decision has not been taken lightly.

We thank our partners at Colwyn Bay Fire Station, Conwy County Borough Council and Colwyn Leisure Centre for all they have done to help us provide a safe and enjoyable event over the past 50+ years. Many of their staff will be on standby over the next 36 hours to respond to any emergencies, due to the adverse weather. We hope everyone stays safe and that we will be back with a bigger and better event in 2024.

Cllr Hannah Fleet, Town Mayor
Cllr Chris Hughes, Chair of the Bay of Colwyn Bonfire Sub-Committee